

CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae Pwllheli yn cynnig mynedfa i rai o'r dyfroedd hwylio gorau yn y DU sydd yn cynnwys Cae Ceredigion, Ynys Môn ac arfordir Dwyreiniol Iwerddon. Mae Pwllheli eisoes yn cael ei gydnabod fel lleoliad ar gyfer digwyddiadau cychod dingi sydd yn cynnig hwylio o safon ac amgylchedd atyniadol ar gyfer cefnogwyr a theuluoedd.

Mae datblygiad yr Hafan yn 1991 wedi atgyfnerthu pa mor boblogaidd yw'r lleoliad ond mae barn yn bodoli nad yw potensial Pwllheli wedi ei wireddu. Mae Cyngor Gwynedd a Chlwb Hwyllo Pwllheli yn adnabod y potensial sydd yn weddill a thrwy sefydlu'r Grwp Technegol Academi Hwyllo a Digwyddiadau Pwllheli wedi adnabod gweledigaeth ar gyfer Academi Hwyllo Cenedlaethol Cymru. Rhagwelir y byddai creu Academi Hwyllo a Digwyddiadau yn arwain at fudd economaidd i'r ardal ac yn cefnogi hunaniaeth forwrol y dref, hwyluso gweithgareddau addysgol ac yn hyrwyddo hunaniaeth Gymraeg.

Mae Marina Projects Ltd wedi eu comisiynu gan Gyngor Gwynedd fel y corff arweiniol o fewn Grwp Technegol Academi Hwyllo a Digwyddiadau Pwllheli, i baratoi cynigion cysyniad mewn perthynas âg Academi Hwyllo Cenedlaethol Cymru a Chanolfan Ddigwyddiadau. Wrth ymgymryd â'r comisiwn yma, ac i ymateb i ofynion y briff, mae Marina Projects hefyd wedi gwneud defnydd o wasanaethau proffesiynol Morgan Carey Architects Ltd.

Mae'r astudiaeth wedi canolbwyntio ar ddatblygu cynigion cysyniad ar gyfer Academi Hwyllo Genedlaethol Cymru a Chanolfan Ddigwyddiadau ym Mhwlheli. Mae'r astudiaeth wedi gwneud y casgliadau canlynol mewn perthynas â bwriad o'r fath :

- Mae cefnogaeth gref i'r cysyniad ymysg ystod o grwpiau ac mae'r cynigion yn unol â nifer o themâu allweddol a rhaglenni sydd yn cael eu hyrwyddo gan wahanol gyrff gan gynnwys Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Daeth ystod o bartion gyda gwahanol ddi-ddordebau at eu gilydd i sefydlu a chytuno ar Weledigaeth ac Amcanion ar gyfer y Prosiect
- Mae'r lleoliad eisoes wedi ei sefydlu fel cychran hwylio dingis, ac mae enw da mewn sawl ffordd wedi datblygu er gwaethaf cyfleusterau presennol. Y manteision daearyddol a gynigir gan y lleoliad, yn arbennig y dyfroedd hwylio o gwmpas Pwllheli sydd ymysg y gorau yn y byd, sydd yn ei wneud yn leoliad mor atyniadol.
- Mae cyfle i hyrwyddo'r iaith a diwylliant Gymraeg a chreu ffocws ar weithgareddau hwylio, gyda addysg a hyfforddiant cysylltiedig fyddai yn creu budd economaidd i'r ardal.
- Mae tystiolaeth yn awgrymu fod marchnad yn bodoli ar gyfer ymestyn calendr digwyddiadau a'r nifer cyfyngedig o gyfleusterau allai ddarparu ar gyfer digwyddiadau sylweddol
- Mae cyfle i gyflwyno angorfeydd ar gyfer ymwelwyr a digwyddiadau er mwyn cefnogi datblygiad yr Academi
- Os yw'r adnodd am fod yn hyfyw, yna bydd yn rhaid darparu ar gyfer ystod o ddefnyddiau gan gynnwys hyfforddiant a defnyddiau cymunedol. Mae angen a chyfle i gryfhau cysylltiadau gyda thref Pwllheli.

- Mae'n allweddol bwysig fod yr adnodd yn cyfrannu at weithgareddau Plas Menai ac nid chreu cystadleuaeth uniongyrchol.

Mae'r adroddiad yn cynnig dadansoddiad annibynol o wahanol faterion, gan gynnwys asesiad manwl o'r farchnad ac adolygiad o'r safle presennol a'r cyfyngiadau sy'n bodoli. Mae cyfyngiadau o safbwynt dyfnder o fewn yr harbwr, ac mae hyn ynghyd a lleoliad daearyddol Pwllheli mewn perthynas â dyfroedd hwylio yn debygol o leihau gweithgaredd cychod hwylio mawr ac ymwelwyr. Nid yw hyn yn golygu nad oes posib cynhyrchu gweithgaredd o'r fath, ond mae'n debygol o gymeryd peth amser i'w ddatblygu, ac mae'r gweithgaredd yma yn debygol o fod yn eilradd o'i gymharu â gweithgaredd digwyddiadau dingis.

Mae cyfyngiadau eraill yn bodoli, a byddai cynllun o'r fath angen sicrhau ystod o ganiatadau, a bydd angen ymateb i wahanol ofynion statudol a dynodiadau amgylcheddol.

Yn dilyn adolygiad o'r opsiynau, mae opsiwn ffafredig wedi ei adnabod sydd yn cynnig y cyfle gorau ar gyfer gwreiddu'r Datganiad o Weledigaeth ac Amcanion - mae'r Datganiad o Weledigaeth wedi ei amlinellu ar ddiwedd y Gynodeb Weithredol. Mae cytundeb o fewn y Grwp Technegol ar rinweddau'r opsiwn. Fe gynhaliwyd arddangosfa gyhoeddus ac fe gadarnhawyd cefnogaeth gyffredinol i'r cysyniad.

Mae Cynllun Busnes 10 mlynedd wedi ei baratoi sy'n awgrymu y gallai'r Academi gynnal ei hun fel endid gweithredol yn ddarostyngedig i arian ar y cychwyn ac yn amodol ar ragdybiaethau amrywiol a chriteria gweithredol. Mae'r Cynllun Busnes yn adnabod sensitifrwydd ffrydiau incwm i'r cynllun, ac mae cyllid digwyddiadau yn cadarnhau'r angen am bartneriaeth sydd yn osgoi cystadleuaeth.

Yn unol â'r briff, mae Côt Dylunio wedi ei baratoi ar gyfer yr opsiwn ffafredig ac fel rhan o ddatblygiad y Côt Dylunio mae cysyniad ar gyfer yr adeilad wedi ei baratoi gan y tim dylunio. Mae'r ffurf bresennol ar gyfer yr opsiwn ffafredig wedi ei gynnwys yn Atodiad 13. Mae'r Côt Dylunio wedi ei baratoi ar ffurf canllaw dylunio er mwyn dangos sut gallai adeilad gael ei ddylunio ar safle'r opsiwn ffafredig. Mae'r Côt yn amlinellu safonol digwyliedig ar gyfer y datblygiad unrhyw gais cynllunio i'r dyfodol. Mae'n cynnig gwybodaeth mewn perthynas â modelu, mas, graddfa, deunyddiau, goleuo a chynladwyedd.

Yn olaf, mae Rhaglen Weithredu wedi ei baratoi sydd yn adnabod camau allweddol a strwythur ar gyfer symud y cynllun yn ei flaen. Mae'n bwysig nodi y bydd angen adnabod y buddion economaidd fyddai'n deillio o'r cynllun yn fuan yn y broses, ac i osod y rhain yn erbyn costau cyfalaf disgwyliedig er mwyn sicrhau y gellid cyflwyno acnos ar gyfer buddsoddiad sylweddol fyddai ei angen ar gyfer y cynllun.

Mae'r prosiect ar raddfa a chymhlethdod sy'n golygu y byddai'r rhaglen weithredu yn debygol o gymryd amser i'w chwblhau. Rhagwelir y gallai gymryd hyd ar wanwyn 2011 cyn y byddai'r adnodd yn weithredol, ac mae sawl maes lle gallai'r prosiect ddiodeff oedi. Bydd gweithredu buan yn ddibynnol ar ymrwymiad a rheolaeth gref.